## Crynodeb gweithredol



# Welingtons Croen Llewpard, Het Silc a Phiben Sugnwr Llwch:

Dadansoddiad o ddyletswydd
Asesiad Digonolrwydd Chwarae, Cymru

UNIVERSITY OF GLOUCESTERSHIRE
at Cheltenham and Gloucester

play wales
chwarae cymru

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau prosiect ymchwil graddfa fechan oedd yn archwilio sut y bu i awdurdodau lleol ymateb i gyflwyno'r dyletswydd i asesu digonolrwydd cyfleoedd chwarae ar gyfer plant, rhan cyntaf y Dyletswydd Digonolrwydd Chwarae, fel yr amlinellwyd ym Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, Adran 11. Cynhaliwyd yr ymchwil gan Stuart Lester a Wendy Russell o Brifysgol Swydd Gaerloyw gyda chymorth Dr Owain Jones a Nick Lewis o athrofa The Countryside and Communities Research Institute (CCRI) a leolir ym Mhrifysgol Swydd Gaerloyw.

Mae'n defnyddio data o Asesiadau Digonolrwydd Chwarae (ADC) 20 o awdurdodau lleol, ynghyd â dogfennau perthnasol eraill, cyfweliadau a nodiadau o gyfarfodydd rhanddeiliaid tri astudiaeth achos o awdurdodau lleol, nodiadau a gasglwyd wrth fynychu cyfarfodydd rhanbarthol i rannu profiadau ar draws awdurdodau lleol, cyfweliadau â swyddogion Llywodraeth Leol a swyddogion allweddol o bartneriaid cenedlaethol (Chwarae Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru) ac arolwg arlein ar gyfer rhanddeiliaid allweddol oedd ynghlwm â'r broses ADC.

Cymru yw'r wlad gyntaf yn y byd i ddeddfu ar gyfer chwarae plant. Mae Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, Adran 11, yn gosod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i asesu a, cyn belled â bo'n rhesymol ymarferol, i sicrhau cyfleoedd chwarae digonol ar gyfer plant.

Mae cwblhau cam cyntaf gweithredu'r rhaglen hon yn cyd-daro â chyhoeddi Sylw Cyffredinol ar Erthygl 31 o GCUHP gan Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, sy'n argymell yn benodol y dylai llywodraethau ystyried cyflwyno deddfwriaethau sy'n mynd i'r afael ag egwyddorion digonolrwydd. O'r herwydd, dylai Dyletswydd Digonolrwydd Chwarae Cymru fod o ddiddordeb mawr i lywodraethau eraill ar draws y byd.

Fodd bynnag, nid yw'r berthynas rhwng chwarae a pholisi cymdeithasol yn un syml. Nid yw chwarae'n weithgaredd fydd yn digwydd mewn mannau ar wahân ac ar adegau penodol yn unig; nid yw'n rhywbeth y gall oedolion, yn syml, ei ddarparu, ond yn hytrach mae'n weithred o gyd-greu fydd yn codi'n gyfleus yn sgîl cyfuniad[1] o ffactorau cyd-ddibynnol a chydberthynol.

Mae **Adran 2** o'r adroddiad yn cynnig dadansoddiad polisi o'r Asesiad Digonolrwydd Chwarae, ac yn edrych ar naratifau polisi o fewn Llywodraeth Cymru ers datganoli, yn enwedig naratifau sy'n ymwneud â phartneriaeth, llesolaeth a chyfiawnder cymdeithasol, ac ymgysylltu â dinasyddion, gan ddangos y modd y mae'r rhain yn trosi'n uniongyrchol yn bolisïau sy'n ymwneud â chwarae plant:

1. Gwelir y naratif partneriaeth yn y partneriaethau rhwng Llywodraeth Cymru, Chwarae Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, fu'n arbennig o lwyddiannus wrth ddatblygu'r Canllaw Statudol a'r pecyn cymorth ar gyfer Asesu Digonolrwydd Chwarae.

2. Gwelir y naratif cyfiawnder cymdeithasol yn agwedd Llywodraeth Cymru i seilio ei bolisïau ar gyfer plant a phobl ifainc ar GCUHP, ac mae hyn wedi caniatáu dealltwriaeth ehangach o chwarae, sy'n cynnwys ac yn mynd y tu hwnt i'w werth cyfryngol wrth helpu i ddelio â materion polisi sy'n ymwneud â lles ac iechyd corfforol a meddyliol, parodrwydd ar gyfer mynd i'r ysgol, datblygiad plant a chydlyniad cymunedol, i elwa ar werth hanfodol chwarae fel hawl i blant.

3. Gwelir y naratif ymgysylltu yn ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyfranogaeth ac ymgynghoriad plant, ac roedd hyn yn amlwg hefyd o'r ADCh, er bod ei weithrediad yn amrywio ar draws awdurdodau lleol o arolygon arlein cymharol dechnegol i weithio manwl â phlant mewn gwir ymdrech i ddeall eu gwybodaeth leol, cyfoethog penodol hwy a'u profiadau o'u amgylcheddau eu hunain.

Mae **Adran 3** yn edrych yn fanwl ar y Canllaw Statudol a'r pecyn cymorth fel arfau i gefnogi ac arwain awdurdodau lleol wrth gasglu ac adrodd ar wybodaeth ar gyfer eu ADCh. Mae'n ystyried lle (cyfyngedig) gwybodaeth a grym iaith wrth lunio polisïau; tra bo gwybodaeth yn ddefnyddiol, caiff

penderfyniadau eu llunio gan amlaf trwy wneud defnydd o ystod ehangach o faterion megis hanes, cyd-destun, perthnasau a ffactorau amodol, lleol eraill. Weithiau bydd gormod o ffocws ar 'ffeithiau' yn atal cyd-ddoethineb bob dydd am hynodweddau patrymau chwarae plant, a gall yr iaith a ddefnyddir ddylanwadu ar y modd y byddwn yn deall materion a gweithredu arnynt.

Roedd nifer o fwriadau'r tu ôl i batrwm y Canllaw a'r pecyn cymorth: i daro cydbwysedd rhwng amwysedd ac argymhellion er mwyn cynnig arweiniad ond i ganiatáu ar gyfer cyd-destunau lleol; i annog dialog fel modd o gynhyrchu gwybodaeth ar y cyd ynghylch chwarae plant a thrwy hynny ddylanwadu ar ymwybyddiaeth a phenderfyniadau polisi yn y dyfodol; ac i sicrhau y rhoddir ystyriaeth i chwarae plant ym mhob agenda polisi a gweithredu.

Mae **Adran 4** o'r adroddiad yn archwilio rhai o'r themâu allweddol sydd wedi codi o'r broses o gwblhau ADCh a chynlluniau gweithredu. Mae'n archwilio'r modd y mae strwythurau fframio'r Dyletswydd, sef y Canllaw a'r pecyn cymorth cysylltiedig, wedi ffurfio ymatebion awdurdodau lleol wrth lunio barnau ar lefelau digonolrwydd presennol cyfleoedd chwarae. I'r rheini oedd yn gyfrifol am gwblhau'r ADCh, bu hon yn broses drom a heriol oedd yn galw am weithio partneriaeth ar draws adrannau a gyda rhanddeiliaid eraill, yn arbennig y sector gwirfoddol. Fe wnaeth hefyd, i wahanol raddau, ysgogi ail-feddwl am gyfrifoldeb awdurdodau lleol dros chwarae plant a gwerthfawrogiad ehangach o sut y gall arferion cyfoes gefnogi neu gyfyngu ar allu plant i gymryd amser a lle i chwarae.

Mae pob ADCh yn adlewyrchiad o'r sefyllfa bresennol o ran dealltwriaeth, agweddau, blaenoriaethau, perthnasau gweithio, a ffactorau economaidd, cymdeithasol a gwleidyddol sy'n bodoli o fewn yr awdurdod. Dechreuodd rhai awdurdodau lleol y broses ADCh o safbwynt cymharol wan, gyda fawr ddim hanes o weithio partneriaeth ar draws themâu allweddol y Dyletswydd Digonolrwydd. Yn yr achosion hyn glynwyd at y templed mewn modd cymharol lythrennol a thechnegol a cheir diffyg cyswllt cyffredinol rhwng y wybodaeth a ddarparwyd a'r ystyriaethau ar gyfer datblygu agwedd amgylcheddol tuag at gefnogi chwarae plant. Roedd gan awdurdodau lleol eraill fan cychwyn cryfach, yn aml â phartneriaethau chwarae oedd yn bodoli eisoes a strategaeth chwarae weithredol yn ei lle. Yma, mae'r gofyniad i gwblhau'r ADCh wedi ymestyn y trefniadau hyn i ddatblygu agwedd fwy integredig tuag at y materion dan sylw.

Caiff dadansoddiad thematig y data ei fframio a'i gyflwyno trwy ddefnyddio hanes Amin[2] am y ddinas dda. Mae wedi ei addasu i gyd-destun penodol chwarae plant ac mae'n ystyried pedwar 'mesur', neu rannau hanfodol, sy'n cyfuno i greu amgylcheddau sy'n agored i bresenoldeb chwareus plant. Mae'n cydnabod nad dim ond llestrau ffisegol ar gyfer gweithredu ynddynt yw amgylcheddau ond yn hytrach eu bod yn cael eu cynhyrchu trwy batrwm cymhleth o berthnasau, arferion, technolegau, symbolau ac yn y blaen sydd, gyda'i gilydd, yn gweithredu i siapio arferion gofodol; maent yn bwysig er mwyn gwneud i fannau weithio, ond mae ganddynt sgîl-effeithiau gwaharddol.

Felly bydd arwyddion dim gemau pêl, trefniadau ffyrdd, patrymau gwaith, dylanwad y cyfryngau, arferion sefydliadol ac yn y blaen, o'u rhoi at ei gilydd yn dylanwadu ar rhythmau a phatrymau bywydau gofodol plant. Dyma bedwar mesur Amin:

1. *Atgyweirio a chynnal a chadw:* Mae'r mesur hwn yn archwilio'n feirniadol y modd y mae gofod yn gweithio, er mwyn datgelu'r modd y caiff dinasyddion eu cynnwys a'u heithrio, a thrwy hynny hwyluso proses o atgyweirio er mwyn gwneud mannau'n fwy teg. O ran y Dyletswydd Digonolrwydd Chwarae, mae'r mesur hwn yn cyfeirio at y modd y bydd awdurdodau lleol yn asesu gwerth a gallu amrywiol fannau i gefnogi cyfleoedd chwarae. Er mwyn hwyluso'r drafodaeth mae'n cydgrynhoi mannau glas, agored a chyhoeddus a mannau penodedig ar gyfer chwarae ynghyd ag amgylcheddau sefydliadol a oruchwylir gan oedolion (darpariaeth gwaith chwarae a meysydd chwarae ysgolion) i ddelio'n bennaf at Materion C, D ac F.

2. *Gradd perthynas:* Wedi ei addasu o ddadansoddiad Amin, mae gradd perthynas yn cyfeirio at y ffyrdd y bydd oedolion yn cydnabod bod plant yn wahanol-i-oedolion ac yn malio am y gwahaniaeth hwn. Mae'n cydnabod bod plant yn preswylio'n yr un amgylchedd ag oedolion, yn ei brofi mewn modd gwahanol, a bod ganddynt hawl i wireddu'r hyn y mae'r amgylchedd yn ei gynnig iddyn nhw fel plant. O ran y Dyletswydd, gellid ystyried bod pob Mater yn berthynol, yn yr ystyr bod perthnasau plant â'u hamgylcheddau'n cael eu cynhyrchu trwy gwrdd yn uniongyrchol ag eraill (yn blant ac oedolion) ar lefel leol ac, yn fwy anuniongyrchol, trwy ddylanwad oedolion wrth ffurfio amodau'n lleol. Fel sy'n amlwg, mae mater gradd perthynas yn un hynod o bellgyrhaeddol yn ei gwmpas ac mae'n gweithredu ar draws lefelau dadansoddi niferus, o gyfarfyddiadau bob

dydd rhwng oedolion a phlant i'r modd y bydd llywodraethwyr yn datblygu eu dealltwriaeth, eu cyfrifoldebau a'u deddfiadau wrth lunio polisïau, mannau ac arferion.

3. *Hawliau:* Mae'n amserol iawn bod Llywodraeth Cymru wedi cychwyn ar y cam yma o daith hirfaith, o ystyried cyhoeddiad diweddar CCUHP o Sylw Cyffredinol (17) ar Erthygl 31, sy'n cydnabod yn gwbl eglur bod cefnogi hawl plant i chwarae'n cynnwys agweddau trawsbynciol sy'n ymestyn y tu hwn i ddarpariaeth yn unig. Mae'r Sylw Cyffredinol hefyd yn ail-leoli Erthygl 31, o fod yn hawl ar wahân i un sydd wedi ei gysylltu'n agos i erthyglau cyfranogi eraill CCUHP, sef Erthygl 15 (hawl plant i gael rhyddid i ymgysylltu ac ymgynnull yn heddychlon); Erthygl 14 (parchu rhyddid barn plant); Erthygl 13 (rhyddid plant i fynegi eu barn); ac Erthygl 12 (yr hawl i fynegi barn yn gwbl rydd ar bob mater sy'n effeithio ar y plentyn). Yn hyn o beth, mae'r ffocws ar sefydlu amodau amgylcheddol ffafriol ar gyfer chwarae ac elfennau cyfansoddol y broses ADCh yn cydfynd yn llwyr â phrif egwyddor y Sylw Cyffredinol.

   Mae dadansoddiad o'r ADCh yn datgelu bod y mwyafrif yn cyfeirio'n uniongyrchol at hawl plant i chwarae'n y datganiad egwyddorion agoriadol, ond bod tueddiad i beidio â thracio hyn, yn benodol, i'w derfyn wrth gwblhau adrannau unigol y pecyn cymorth; o'r herwydd, mae hawliau'n cael eu datgysylltu oddi wrth farnau ynghylch digonolrwydd chwarae a chamau gweithredu cysylltiedig. Caiff hyn ei dystio ymhellach yn yr adroddiad trwy edrych ar ddwy thema allweddol a geir yn y Dyletswydd: yn gyntaf y gofyniad i ymgynghori â phlant ac yn ail i ddarparu ar gyfer anghenion amrywiol.

4. *Ail-hudo:* Mae'r mesur olaf o ddadansoddiad Amin yn cyfeirio at y modd y caiff arferion arferol, polisïau, symbolau, tybiaethau synnwyr cyffredin ac yn y blaen eu craffu'n feirniadol er mwyn datblygu'r modd y gallent gefnogi neu gyfyngu ar yr amodau amgylcheddol ar gyfer cyfleoedd chwarae. Wedi gwneud y datgeliadau hyn, gellir cymryd camau i ail-gyflunio neu ail-hudo amodau sy'n bodoli eisoes er mwyn creu amgylcheddau sy'n fwy agored ar gyfer chwarae. Yng nghyd-destun y broses ADCh, mae'n cyfeirio at y modd y caiff barnau ynghylch digonolrwydd eu dwyn ymlaen ar ffurf cyfres o gamau gweithredu i ail-fywiogi neu i warchod mannau agored.

Themâu allweddol sy'n codi o'r dadansoddiad:

1. Mewn llawer o awdurdodau lleol, mae'r Dyletswydd wedi atgyfnerthu partneriaethau sy'n bodoli eisoes, o fewn yr awdurdod yn ogystal â gyda rhanddeiliaid allweddol eraill, yn enwedig y sector gwirfoddol, er nad oedd hyn yn gyffredinol wir. Mae wedi dwyn ynghyd adrannau o awdurdodau lleol sydd, yn draddodiadol efallai, heb fawr ddim yn gyffredin o ran chwarae plant, yn arbennig cynllunio a datblygu lleol, trafnidiaeth a phriffyrdd, ac amgylchedd.

2. Mae rhai ADCh wedi datblygu ystod o agweddau ar gyfer ymgynghori â phlant (ac mewn rhai achosion, ag oedolion) sy'n ymestyn y tu hwnt i arolygon haniaethol a symbolaidd, i ddatgelu bod gan blant gyfoeth o wybodaeth lleol am eu hamgylcheddau a'r modd y bydd lle / amser ac agweddau'n ffurfio eu rhyngweithiadau o ddydd i ddydd.

3. Pan roddir proffil uwch i wybodaeth lleol plant a'i gyfuno ag arbenigedd proffesiynol, gan gynnwys rôl dylanwadol mudiadau sector gwirfoddol, a ffynonellau gwybodaeth allweddol eraill, bydd partneriaethau'n llunio 'cyd-ddoethineb', hynny yw, ystyriaeth mwy deallus o'r modd y gall amgylcheddau lleol gyfoethogi neu lesteirio gallu plant i ganfod amser a lle ar gyfer chwarae.

4. Mae'r doethineb cynyddol yma, ynghyd â'r naratif cyffredin cysylltiedig, yn caniatáu meithrin agwedd sy'n fwy rhesymegol a chydlynol tuag at ddelio â'r Materion ADCh, yn hytrach na'u trin fel hanfodau ar wahân. Mae'n creu sail ar gyfer delio â'r newidion niferus, aflêr a chymhleth sy'n cyfrannu at greu amgylcheddau chwarae-gyfeillgar. Felly, er enghraifft, gall agwedd partneriaeth integredig, sy'n seiliedig ar y gwerth y bydd plant yn ei osod ar chwarae mewn mannau anffurfiol yn agos i'w cartref, fynd i'r afael â materion sy'n amrywio o fân-weithredu ar lefel 'stryd' (arwyddion, cau strydoedd, ymyriadau gwaith chwarae, amddiffyn llecynnau bychain o 'dir diffaith'), materion sy'n ymwneud ag ymgysylltiad cymunedol (eiriolaeth, archwiliadau chwarae cymunedol), i faterion polisi ehangach (rheoliadau traffig, gweithdrefnau cau strydoedd hygyrch) ac yn y blaen.

**Casgliadau**

Dylid llongyfarch Llywodraeth Cymru a'i bartneriaid, Chwarae Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yn galonog am gymryd y cam beiddgar hwn i'r hyn sydd o bosibl yn dirwedd cwbl newydd o ran dealltwriaeth llywodraeth am chwarae plant. Fel y

cyfeiriodd un person a gyfwelwyd, mae popeth y bydd llywodraethau'n ei wneud yn effeithio ar allu plant i gymryd amser a lle i chwarae, yn cynnwys dylunio ffyrdd a mannau cyhoeddus, arferion sefydliadol mewn mannau fel ysgolion, arferion sy'n cynhyrchu ofnau ynghylch, ac o, blant a phobl ifainc, tai, pwysau economaidd ac yn y blaen.

Mae'r broses ADCh wedi gofyn i awdurdodau lleol ystyried 111 criteria sy'n effeithio ar amgylcheddau plant. Mae ein dadansoddiad wedi dangos bod ymatebion i'r rhain yn amrywio, ond bod pob un o'r 22 awdurdod lleol wedi eu hystyried i gyd, i amrywiol raddau. Os y gellir cynnal y momentwm yma mewn cyfnod o lymder, ble fo blaenoriaethau eraill o bosibl yn hawlio man blaenllaw, gellid ystyried hwn fel cam cyntaf siwrnai fuddiol, ble y gall llywodraethau werthfawrogi effaith eu gweithredoedd a gweithio â'i gilydd i greu Cymru sy'n chwarae gyfeillgar.

Mae'r themâu allweddol yn ein dadansoddiad yn tanlinellu'r modd cymhleth y mae pob agwedd o fywyd plant wedi ei gysylltu â'i gilydd; 'dyw chwarae ddim yn ffenomenon ar wahân sy'n digwydd mewn mannau penodedig ac ar adegau penodol, yn hytrach mae wedi ei wau i mewn i fywyd bob dydd plant a bydd yn codi i'r wyneb pryd bynnag y bo amgylchiadau'n caniatáu. Mae datblygu a gweithredu polisïau'n broses a ddylanwadir gan ffactorau cyfoes a hanesyddol.  Er mwyn parhau â'r momentwm a grewyd gan ofyniad statudol yr ADCh, rydym yn awgrymu bod angen datblygu ymwybyddiaeth o'r amgylchiadau fydd yn cefnogi awdurdodau lleol gyda'r gwaith yma, a gallai'r rhain gynnwys:

*Cynnal dialog:* Bydd angen meithrin y partneriaethau strategol a grewyd neu a ddatblygwyd mewn ymateb i'r gofyniad ADCh, ar draws adrannau awdurdodau lleol yn ogystal â gyda phartneriaid eraill o'r sector gwirfoddol, er mwyn parhau â'r dialogau sydd wedi digwydd yn ystod y broses o gynhyrchu'r data ar gyfer yr ADCh. Mae dialog yn cydnabod y bydd gwahanol ddealltwriaethau, gwahanol flaenoriaethau a gwahanol lefelau o ymroddiad i'w hystyried; o fewn awydd cytûn i greu Cymru sy'n chwarae-gyfeillgar, bydd y dialog poenus yma'n galw am gefnogaeth ac arweinyddiaeth strategol ar lefel leol yn ogystal â chenedlaethol, er mwyn annog gweithredwyr i ofalu am ei gilydd er mwyn gofalu am amgylcheddau plant.
*Meithrin cymuned barhaus o ddysg ac arfer:* Mae'r gwaith hyd yma wedi datblygu cyd-ddoethineb ynghylch amodau sy'n cefnogi neu'n cyfyngu ar chwarae plant. Mae'r doethineb yma wedi ei greu, nid yn unig o ddata ffeithiol, ond hefyd trwy hanesion, greddf, atgofion, arsylwadau, profiad a dialog uniongyrchol. Mae datblygu'r gweithlu'n elfen bwysig o hyn, o ran hyfforddiant a chymwysterau gwaith chwarae ac o ran datblygiad proffesiynol parhaus sy'n meithrin dealltwriaeth cytûn ar draws sectorau proffesiynol a chymunedol. Unwaith eto, mae hyn yn galw am arweinyddiaeth strategol ar lefel leol a chenedlaethol.

*Cymhwysedd plant a chyfrifoldeb oedolion tuag at gyd-ddoethineb:* Mae gan y rhan fwyaf o blant gyfoeth o wybodaeth lleol am eu hamgylcheddau ac mae angen i oedolion ddatblygu agweddau mwy hyblyg a dilys sy'n cydnabod a gwerthfawrogi hyn ochr-yn-ochr â'r lliaws o ffyrdd eraill o wybod. Fodd bynnag, all oedolion fyth wybod yn llwyr am chwarae plant, a ddylen nhw ddim. Yr hyn sy'n fwy perthnasol yma, yw datblygu doethineb ynghylch yr arferion micro, meso a macro sy'n cefnogi neu'n llesteirio gallu plant i gymryd amser a lle ar gyfer chwarae yn, a thrwy eu hamgylcheddau. Fodd bynnag, mae gan blant hawl i fod ar wahân, i gael amser a lle i'w hunain sydd y tu hwnt i olwg oedolion ac i oedolion falio am hyn. Ar yr un pryd, 'dyw plant ddim yn gwbl ar wahân oddi wrth oedolion; bydd oedolion â phresenoldeb gyda phlant hyd yn oed pan eu bod yn bell i ffwrdd, a bydd ymateb ystyriol yn talu sylw i'r modd y gall y perthnasau hyn gefnogi neu lesteirio amodau amgylcheddol ar gyfer chwarae.

*Arbrofi:* Cymru yw'r wlad gyntaf yn y byd i gyflwyno Dyletswydd Digonolrwydd Chwarae, felly 'does dim patrwm penodol i'w ddilyn. Ond o ystyried yr hyn a wyddom am natur cymhleth a lleol perthnasau plant â'u amgylcheddau, 'dyw patrymau safonol ddim yn gyraeddadwy nac yn ddymunadwy, er bod egwyddorion cyffredinol i'w hystyried. Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd cam beiddgar gan gydnabod bod mynd i'r afael â digonolrwydd cyfleoedd chwarae'n galw am arbrofi – nid yn yr ystyr arbrawf gwyddonol sy'n ceisio rheoli'r holl newidion rheolyddol, ond trwy archwiliad beirniadol o arferion a pholisïau cyffredin cyfoes a mentro i wneud pethau'n wahanol.

Mae'r broses ADCh wedi creu ymdeimlad o gyffro. Mae hyn angen ei feithrin trwy rwydweithiau cefnogol a chydweithrediadol, fydd ddim yn gyfeillgar a chydsyniol bob amser (fel gyda chwarae plant ei hun), ond gydag ymroddiad ar y cyd i greu amgylcheddau mwy teg a democrataidd ar gyfer plant. Ceir egwyddor mewn hyfforddiant gwaith chwarae y dylai'r broses o ddatblygu cyd-ddoethineb o fewn cymuned arfer o oedolion, sy'n anelu i gefnogi chwarae plant, adlewyrchu rhai o nodweddion chwaraegarwch: bod yn agored i bethau newydd, ymdeimlad o chwilfrydedd a'r hyn allai ddigwydd, parodrwydd i ofyn gwahanol fathau o gwestiynau – agwedd 'beth pe bae …?'.  Hyderwn bod y broses ADCh wedi datgloi'r posibilrwydd yma ac y bydd yn parhau.

**Diolchiadau**

Hoffai'r awduron gydnabod y cymorth a'r gefnogaeth a dderbyniwyd gan nifer o bobl a sefydliadau, yn cynnwys: Chwarae Cymru, am gyfrannu'n ariannol tuag at ac am gefnogi'r ymchwil mor frwdfrydig, gan gynnwys sicrhau cyfieithiad cyflym yr arolwg arlein; Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru am eu cyfraniadau ac am gytuno inni eu cyfweld; y tri astudiaeth achos awdurdod lleol am gytuno i agor eu prosesau Asesiadau Digonolrwydd Chwarae inni graffu arnynt ac am ein cefnogi ag ewyllys da a hwyliau da trwy gydol y cyfnod ymchwil. Diolch hefyd i Nick Lewis am ei gymorth allweddol wrth ddatblygu a dadansoddi'r arolwg arlein – byddem wedi bod ar goll heb hyn – ac i Owain Jones am arweiniad a beirniadaeth cyfeillgar.

**Cyfeiriadau**

[1] Deleuze, G. a Guattari, F. (1998) *A Thousand Plateaus: Capitalism and Schizophrenia*, cyfieithiad. B. Massumi, Llundain: Continuum Books.

[2] Amin, A. (2006) The Good City, *Urban Studies*, 43(5/6): 1009–1023.

Mai 2013

**© Prifysgol Sir Gaerloyw a Chwarae Cymru**

Awduron: Stuart Lester a Wendy Russell, Prifysgol Sir Gaerloyw

Mae adroddiad cyflawn yr ymchwil ar gael ar gais:
gwybodaeth@chwaraecymru.org.uk | 02920 486050